**STRATEGAETH CAERDYDD DDWYIEITHOG 2022-27**
**Cynllun Gweithredu 2022-23**

---

## THEMA STRATEGOL 1: CYNYDDU NIFER Y SIARADWYR CYMRAEG

**Meysydd Gwaith:**

1. **Trosglwyddo iaith o fewn y teulu**
2. **Y blynyddoedd cynnar**
3. **Addysg statudol**
4. **Addysg ôl-orfodol**
5. **Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau**

| Deilliant | Targed | Amserlen | Adrodd | Partner(iaid) Cyflawni | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| **2.** Ymgyrch i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y cartref – hyrwyddo dwyieithrwydd ac aml-ieithrwydd o fewn aelwydydd di-Gymraeg yng Nghaerdydd. | Cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch Cymraeg a dwyieithog o fewn y cartref e.e. Clwb Cwtsh S4C a gweithgaredd tebyg gan | Cytuno a lansio'r ymgyrch erbyn mis Medi 2022 gyda chynnydd i'w adrodd yn flynyddol gan y partneriaid cyflawni. | Yt holl bartneriaid i adrodd i Fforwm CDd | Mudiad Meithrin<br>Cymraeg i Blant<br>Menter Caerdydd<br>S4C<br>Yr Urdd<br>Dechrau'n Deg Cylch methrin (grwpiau meithrin) | Mae mentrau i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y cartref a dwyieithrwydd ac amlieithrwydd o fewn aelwydydd di-Gymraeg yn cael eu cyflawni gan y partneriaid:<br>• Lansiwyd cynllun Cymraeg yn y Cartref yn Ysgol Pwll Coch ym mis Medi 2022;<br>• Cyrsiau blasu Cymraeg 18 wythnos i rieni di-Gymraeg sy'n cael eu cyflwyno ar draws Caerdydd ers Ionawr 2023.<br>• Partneriaeth rhwng Cymraeg i Blant a Dechrau'n Deg yn Butetown, Llaneirwg, a Threlái i ymchwilio i holi barn rhieni am fagu plant yn Gymraeg a Saesneg, annog y staff i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg mewn sesiynau Dechrau'n Deg ac i ddarparu'r cynnig Cymraeg yn rhagweithiol i rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | bartneriaid y Fforwm. | | | | Mae angen trafodaethau pellach gydag S4C i ymchwilio i hyrwyddo gweithgareddau dwyieithog drwy wefan Cyw. |
| **4.** Cynyddu darpariaeth hyfforddiant yn y Gymraeg i rieni sy'n anfon eu plant i ysgolion Cymraeg. | Cynnydd yn nifer y rhieni di-Gymraeg sy'n anfon eu plant i ysgolion Cymraeg yng Nghaerdydd yn derbyn hyfforddiant Cymraeg drwy bartneriaid y Fforwm. | Darpariaeth gychwynnol i'w chyflwyno erbyn **Medi 2022** ac ystadegau cyfranogiad i'w hadrodd yn flynyddol gan bartneriaid cyflawni gyda'r targed i'w gyrraedd erbyn mis Mawrth 2027. | Partner cyflawni i adrodd yn ôl i Fforwm Caerdydd Ddwyieithog | Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol<br><br>Menter Caerdydd<br><br>Mudiad Meithrin<br><br>Yr Urdd<br><br>Coleg Caerdydd a'r Fro<br><br>Uned Drochi'r Gymraeg | Darpariaeth Gymraeg i rieni sy'n anfon eu plant i ysgolion Cymraeg:<br><br>• Hyb digidol Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gefnogi rhieni a theuluoedd i gael gafael ar wybodaeth am addysg Gymraeg, hyfforddiant Cymraeg, a geirfa ac ymadroddion syml yn y Gymraeg.<br>• Clwb Cwtsh a chyrsiau Cymraeg yn y Cartref i rieni a theuluoedd wedi eu darparu gan Mudiad Meithrin.<br><br>Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn cefnogi rhieni a theuluoedd drwy ddarparu'r cyrsiau canlynol:<br><br>• Cymraeg i siaradwyr ieithoedd eraill<br>• Cwrs Cymraeg wythnosol i ddechreuwyr gyda'r nos<br>• Rhaglen Lefel 1 Agored i gynorthwyo plant gyda'u datblygiad Cymraeg ar draws 27 o ysgolion â tharged o 216 o ddysgwyr. |
| **5.** Cynnydd mewn cyfleoedd cymdeithasol Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar, a chodi ymwybyddiaeth o'r | Cynnydd o 25% yn y ddarpariaeth gymdeithasol Cymraeg ar gyfer y blynyddoedd cynnar, i'w ddarparu gan | Darpariaeth i'w ddatblygu erbyn Medi 2022 a'r ystadegau cyfranogi i'w hadrodd yn flynyddol gan y partneriaid | Partner cyflawni i adrodd yn ôl i Fforwm Caerdydd Ddwyieithog | Mudiad Meithrin<br><br>Cymraeg i Blant<br><br>Coleg Caerdydd a'r Fro<br><br>Ysgolion cynradd Caerdydd | Mae Mudiad Meithrin yn cynnig nifer o weithgareddau i rieni a babanod gan gynnwys grwpiau tylino, sesiynau stori a chân a sesiynau synhwyraidd i fabanod.<br><br>Mae Menter Caerdydd yn darparu sesiynau bygi ffit a sesiynau synhwyraidd i fabanod.<br><br>Cynhaliodd Cymraeg i Blant 3 digwyddiad rhieni a meithrin gyda Menter Caerdydd yn ystod tymor yr Hydref/Nadolig a |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ddarpariaeth hon. | bartneriaid y Fforwm. | cyflawni gyda'r targed i'w gyrraedd erbyn mis Mawrth 2027. | | Menter Caerdydd<br><br>Yr Urdd<br><br>Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro<br><br>Comisiynydd y Gymraeg | rhannu gwybodaeth am ddarpariaeth feithrin ac ysgolion Cymraeg yn y digwyddiadau hyn.<br><br>Mae gan Cymraeg i Blant 15 o grwpiau (gyda hyd at 15 o rieni ym mhob grwp) ar draws Caerdydd ac wedi ei ehangu i gynnwys Llanedern, Llanrhymni a Llaneirwg yn 2022/23.<br><br>Lansiwyd Cylch Meithrin newydd yn Radur ym mis Ionawr 2023 i gefnogi'r galw am ddarpariaeth Gymraeg yn Ysgol Gynradd Groes-wen.<br><br>Mae Menter Caerdydd wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau fel Gŵyl Grangetown a Mela yn y Bae i hyrwyddo gweithgarwch ac addysg yn y Gymraeg.<br><br>Ehangodd cynllun Ti a Fi gyda phenodi swyddog newydd ym mis Medi 2022. |
| **8.** Ariannu, penodi a chynnal swydd Pencampwr Addysg Gymraeg (ar draws Rhanbarth De-ddwyrain Cymru) | Cytuno ar y cais am gyllid gyda Llywodraeth Cymru.<br><br>Cytuno ar flaenoriaethau a dyletswyddau'r swydd gyda phartneriaid Fforwm Caerdydd Ddwyieithog a phenodi'r | Cyllid ar waith erbyn mis Ebrill 2022<br><br>Medi 2022 | Cytundeb ariannu gyda Llywodraeth Cymru.<br><br>Partneriaid y Fforwm i gytuno ar ddisgrifiad swydd a manyleb person a chwblhau'r broses recriwtio'n | Cyngor Caerdydd<br><br>Partneriaid y Fforwm<br><br>Mentrau Iaith De-ddwyrain Cymru | **Cwblhawyd**<br><br>Ailenwi'r prosiect fel Pencampwr Addysg Gymraeg y De-ddwyrain Cytunwyd ar y cyllid gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 a 2023-24.<br><br>Cytunwyd ar y cynllun gwaith a rheoli ar gyfer y Pencampwr gyda phartneriaid y prosiect.<br><br>Mae'r Pencampwr wedi cael ei recriwtio gyda dyddiad cychwyn ar 17 Ebrill a bydd Menter Caerffili yn rheolwr llinell gyda chefnogaeth panel llywodraethiant rhanbarthol â 6 aelod. Y prif weithle fydd swyddfa Menter Caerffili gyda lleoedd gwaith ychwanegol ar gael gan bartneriaid y prosiect ar draws y rhanbarth yn ôl y galw. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | swyddog.<br><br>Trefnu rheolwr llinell a chefnogaeth gweithle ar gyfer y swyddog. | Medi 2022 ymlaen | llwyddiannus.<br><br>Y Mentrau i adrodd yn flynyddol i Fforwm Caerdydd Ddwyieithog | | |
| **(Rhan o Amcan 13)** Hyrwyddo cynnig Llywodraeth Cymru i ddarparu gwersi Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16–25 oed a'r gweithlu addysg gyda phartneriaid Fforwm Caerdydd Ddwyieithog. | | Ebrill 2022 ymlaen | Cyfarfodydd Fforwm Caerdydd Ddwyieithog ac mewn cyfathrebiadau â phartneriaid Fforwm Caerdydd Ddwyieithog | | Mae Dysgu Cymraeg Caerdydd yn cynnig 8 cwrs ar lefelau Mynediad a Sylfaen i bobl ifanc 16-25 oed.<br><br>Dosbarthwyd cysylltiadau ar gyfer y cyrsiau gan y Ganolfan a’u rhannu gyda phartneriaid y Fforwm i hyrwyddo:<br><br>Cyrsiau i bobl ifanc 18-25<br><br>Cyrsiau i'r gweithlu Addysg<br><br>Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i rhannu â phartneriaid y Fforwm Dwyieithog i'w hyrwyddo gyda'u rhwydweithiau a'u cysylltiadau.<br><br>Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnig adnodd digidol i rieni a theuluoedd:<br><br>Cefnogi Rhieni a Theuluoedd<br><br>Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn cefnogi staff a rhieni yn Ysgolion Cynradd Pwll Coch a Hamadryad gyda chyrsiau Cymraeg a gwersi Cymraeg i ddechreuwyr am ddim i bob dysgwr. |

**THEMA STRATEGOL 2: CYNYDDU'R DEFNYDD O'R GYMRAEG**

**Meysydd Gwaith:**

1. **Y gweithlu**
2. **Gwasanaethau**
3. **Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg**

| Deilliant | Targed | Amserlen | Adrodd | Partner(iaid) Cyflawni | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| **2.** Sefydlu Fforwm Ieuenctid Caerdydd Ddwyieithog.<br><br>Holl bartneriaid Fforwm CDd i nodi un person ifanc i'w cynrychioli fel aelodau o'r Fforwm Ieuenctid.<br><br>Nodi a chadarnhau cyllid i ariannu gweithgarwch a digwyddiadau y cytunwyd arnynt gan Fforwm | Poblogi'r Fforwm Ieuenctid a chynnig y cymorth angenrheidiol i sicrhau ei fod yn cyfarfod o 2022/23 ymlaen.<br><br>Galluogi'r Fforwm Ieuenctid i gynnal rhaglen o ddigwyddiadau bob blwyddyn drwy gynnig cyllideb ddigwyddiadau. | Ebrill 2022<br><br>Ebrill 2023<br><br>Ebrill 2023 | Partner cyflenwi yn adrodd i Fforwm Caerdydd Ddwyieithog | Cyngor Caerdydd<br><br>Cyngor Celfyddydau Cymru<br><br>Yr Urdd<br><br>Menter Caerdydd<br>Llenyddiaeth Cymru<br><br>Holl Bartneriaid Fforwm Caerdydd Ddwyieithog | **Cwblhawyd**<br><br>Sefydlwyd Fforwm Ieuenctid Caerdydd Ddwyieithog. Mae aelodaeth y Fforwm Ieuenctid yn cynnwys cynrychiolwyr o Ysgolion Uwchradd Glantaf, Bro Edern a Phlasmawr. Mae'r Fforwm yn cyfarfod bob pythefnos yn yr Hen Lyfrgell yn yr Ais ac wedi bod ar benwythnos preswyl i Langrannog i ddechrau paratoi calendr o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg tu allan i'r ysgol ar gyfer pobl ifanc.<br><br>Cyllideb ddigwyddiadau i gefnogi Fforwm Ieuenctid Caerdydd Ddwyieithog wedi ei gadarnhau gan Gyngor Caerdydd.<br><br>Daeth cytundeb gan Gyngor Celfyddydau Cymru fod digwyddiadau'r Fforwm Ieuenctid yn gymwys i wneud cais am arian trwy'r rhaglen Noson Allan. Mae angen trafodaethau pellach gyda Llenyddiaeth Cymru er mwyn sefydlu cymhwysedd i'r cynllun Awduron ar Daith. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ieuenctid Caerdydd Ddwyieithog.<br><br>Cefnogi aelodau’r Fforwm Ieuenctid i fod yn hyrwyddwyr Cymraeg ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. | Cysylltu rhaglen ddigwyddiadau'r Fforwm Ieuenctid â rhaglenni ariannu digwyddiadau eraill fel ‘Noson Allan’ Cyngor Celfyddydau Cymru ac ‘Awduron ar Daith’ Llenyddiaeth Cymru. | | | | |
| **3.** | Cynnal ymarfer mapio ar gyfer darpariaeth plant a phobl ifanc cyfrwng Cymraeg Cyngor Caerdydd i nodi bylchau posibl yn y ddarpariaeth a mynd i'r afael â hwy drwy gamau gweithredu ac ariannu. | Adroddiad cynhwysfawr o'r gwasanaethau plant a phobl ifanc cyfrwng Cymraeg wedi ei ddarparu gan y Cyngor.<br><br>Cyflwyno canfyddiadau'r ymarfer mapio i Fforwm Caerdydd Ddwyieithog. | Awst 2022<br><br>Medi 2022 | Ymarfer mapio Cyngor Caerdydd | Cyngor Caerdydd | Ymarfer mapio wedi'i gwblhau gan Fenter Caerdydd. Roedd ymgynghoriad hefyd wedi'i gynnal gan Fenter Caerdydd gyda phobl ifanc yng Nghaerdydd sydd wedi derbyn mwy na 1200 o ymatebion.  Bydd Menter Caerdydd yn adrodd ar ganlyniadau'r ymarfer a'r ymgynghoriad yng nghyfarfod Fforwm Caerdydd Ddwyieithog ym mis Mai 2023.<br><br>Canfyddiadau i'w hasesu a'r camau gweithredu i’w cytuno yn dilyn cyfarfod Fforwm Caerdydd Ddwyieithog ym mis Mai 2023. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodi cyfleoedd i ddatblygu darpariaeth ychwanegol i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd. | Ebrill 2023 | | | |
| **6.** Cynnal digwyddiad 'Gyrfa Gymraeg' blynyddol i rannu gwybodaeth am yr ystod eang o gyrsiau addysg bellach a all arwain at swydd Gymraeg. | Cytuno i'w gynnal fel digwyddiad ar wahân neu fel rhan o ffair swyddi ehangach.<br><br>Nodi cyllid ar gyfer y digwyddiad er mwyn sicrhau y gall fod yn ddigwyddiad blynyddol.<br><br>Cynnal digwyddiad Gyrfa Gymraeg. | Mawrth 2022<br><br>Medi 2022<br><br>Erbyn mis Mawrth 2023 ac yna'n flynyddol. | Partner cyflenwi i adrodd i Fforwm Caerdydd Ddwyieithog | Cyngor Caerdydd<br><br>Menter Caerdydd<br><br>Ysgolion uwchradd Cymraeg Caerdydd<br><br>Colegau a Phrifysgolion Caerdydd<br><br>Addewid Caerdydd | Grŵp llywio wedi ei sefydlu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r digwyddiad Gyrfaoedd. Cytundeb y bydd yn ddigwyddiad unigol ac yn cael ei gynnal ym mis Mehefin 2023.<br><br>Arian i gefnogi'r digwyddiad Gyrfaoedd sy'n cael ei ddarparu gan Gyngor Caerdydd gyda chymorth o fath arall gan bartneriaid Fforwm Caerdydd Ddwyieithog. Cyllid i gefnogi digwyddiadau gyrfaol yn y dyfodol i gael eu hymchwilio a'u nodi yn dilyn y digwyddiad cychwynnol.<br><br>Symudwyd y digwyddiad gyrfaoedd i fis Mehefin 2023 ar gyngor penaethiaid ac i ganiatáu digon o amser ar gyfer cynllunio a chyflawni. |
| **10.** Cynnal Tafwyl bob blwyddyn i hyrwyddo a | Cynnal Tafwyl bob blwyddyn. | Adrodd yn flynyddol. | Menter Caerdydd | Menter Caerdydd | Cyllid a lleoliad Tafwyl wedi ei gytuno gan Gyngor Caerdydd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a denu cymunedau Cymraeg a di-Gymraeg i gymdeithasu drwy’r Gymraeg ac ymgysylltu a’r iaith, y sîn gerddoriaeth, llenyddiaeth, chwaraeon a diwylliant Cymraeg. | | | Tafwyl<br><br>Cyngor Caerdydd | | Tafwyl i'w chynnal ar 15 ac 16 Gorffennaf 2023 yng Nghae Cooper.<br><br>Mae Cyngor Caerdydd hefyd yn noddi'r 'Pabell Llais' yn Tafwyl 2023 fel Prif Bartner Strategol. |
| **Camau Gweithredu Ychwanegol:**<br><br>Cynnal sesiwn gyda chwaraewyr pêl-droed Cymru i ddisgyblion ysgolion uwchradd Cymraeg a Saesneg er mwyn meithrin a hybu hunaniaeth a defnydd o’r Gymraeg | Cytuno ar broses ddethol i ddisgyblion fynychu'r sesiwn.<br><br>Cynnal y sesiwn gyda detholiad o ddisgyblion uwchradd Caerdydd. | Ysgolion uwchradd Cymraeg Caerdydd<br><br>Caerdydd Ddwyieithog<br><br>Cymdeithas Bêl-droed Cymru | Ionawr 2023<br><br>Mehefin 2023 | | Mae trafodaethau'n parhau gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru i gynnal y sesiwn yn yr wythnos cyn gêm gartref nesaf Cymru fis Mehefin. Cynrychiolwyr ysgolion uwchradd Cymraeg Caerdydd i gytuno ar ddewis disgyblion i fynychu. |

**THEMA STRATEGOL 3: CREU AMODAU FFAFRIOL: SEILWAITH A CHYD-DESTUN**

**Meysydd Gwaith:**

1. **Cymuned a'r economi**
2. **Diwylliant a'r cyfryngau**
3. **Cymru a'r byd ehangach**
4. **Technoleg ddigidol**
5. **Seilwaith ieithyddol**
6. **Cynllunio ieithyddol**
7. **Gwerthuso ac ymchwil**

| **Deilliant** | **Targed** | **Amserlen** | **Adrodd** | **Partner(iaid) Cyflawni** | **Cynnydd** |
|---|---|---|---|---|---|
| **2.** Ehangu aelodaeth Fforwm Caerdydd Ddwyieithog i gynnwys:<br>• swyddogion o'r Cyngor i rannu gwybodaeth ac arfer da a sicrhau cyd-ddealltwriaeth o nodau; | Fforwm Caerdydd Ddwyieithog i nodi a chytuno ar aelodau ychwanegol. | Mehefin 2022 | Fforwm Caerdydd Ddwyieithog | Cyngor Caerdydd | Mae swyddogion Dinas sy'n Dda i Blant, Adran Addysg y Cyngor, a Thimau Gwasanaeth Ieuenctid a Chydraddoldeb y Cyngor wedi ymuno â Fforwm Caerdydd Ddwyieithog.<br><br>Bydd cynrychiolaeth ar gyfer busnesau Caerdydd yn cael ei ddarparu gan Dîm Sector Preifat Comisiynydd y Gymraeg.<br><br>Mae cynrychiolwyr o Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a Chyngor Trydydd Sector Caerdydd hefyd wedi ymuno â'r Fforwm. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| • sylfaen ehangach o bartneriaid e.e. busnes ac economi. | | | | | Mae trafodaethau'n parhau gyda’r Gymdeithas Bêl-droed fel Partner Fforwm posibl. |
| **3.** Creu slogan i Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog a’r weledigaeth. | Creu a chytuno ar slogan i farchnata Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022/27. | Erbyn Ebrill 2022 | Cytundeb yng nghyfarfod Fforwm CDd ym mis Mawrth 2022. | Llenyddiaeth Cymru<br><br>Cyngor Caerdydd<br><br>Holl bartneriaid Fforwm CDd | 'Ein Dinas; ein Hiaith' – mabwysiadwyd fel y slogan ar gyfer Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog a bydd yn ymddangos ar wefan newydd siop un stop am bopeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg yng Nghaerdydd. |
| **4.** Creu a chynnal gweithgareddau celfyddydol i blant er mwyn cefnogi a hyrwyddo Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog | Cynnydd yn nifer y digwyddiadau a phrosiectau celfyddydol a ddarperir gan bartneriaid y Fforwm a chynnydd yn nifer y plant sy'n eu mynychu. | Rhaglen weithgareddau i'w chytuno erbyn mis Mawrth 2023. | Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd | Cyngor Celfyddydau Cymru<br><br>Llenyddiaeth Cymru<br><br>Menter Caerdydd<br><br>Canolfan y Mileniwm<br><br>Ysgolion Caerdydd | Mae calendr facebook o ddigwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg ledled Caerdydd wedi'i sefydlu er mwyn hyrwyddo gwaith partneriaid strategaeth Caerdydd Ddwyieithog ac eraill sy’n trefnu digwyddiadau Cymraeg, yn ogystal â chyfrif twitter dwyieithog Fforwm Caerdydd Ddwyieithog.<br><br>Cytundeb gyda Chyngor Celfyddydau Cymru fod gweithgarwch yn gymwys i dderbyn cymorth drwy ei gynllun Noson Allan.<br><br>Gweithgarwch celfyddydol wedi'i gefnogi gan Menter Caerdydd.<br><br>2 sesiwn greadigol yn cael eu cynnal gan yr Urdd yn eu Gwersyll Haf yn 2022. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Yr Urdd | Cais am grantiau i gael ei gyflwyno i Gyngor Celfyddydau Cymru gan Fforwm Caerdydd Ddwyieithog i gefnogi gweithgarwch artistig gyda chymunedau lleiafrifoedd ethnig. Caerdydd a'r Fro i gefnogi drwy gynnig mynediad i staff sy'n siarad Cymraeg yn eu tîm diwydiannau creadigol. |
| **5.** Cynyddu ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth, y cyfleoedd a'r mynediad i'r celfyddydau yn y Gymraeg yng Nghaerdydd ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd.<br><br>Darparu sesiynau darllen ac ysgrifennu creadigol cyfrwng Cymraeg yn llyfrgelloedd a hybiau dinas Caerdydd. | Partneriaid cyflawni i gyflwyno gwybodaeth am weithgarwch celfyddydol yn Gymraeg i'w rhannu â phartneriaid y Fforwm.<br><br>6 digwyddiad i'w cynnal yn flynyddol.<br><br>6 sesiwn i'w cynnal yn flynyddol. | Ebrill 2022<br><br>Mawrth 2023 | Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd<br><br>Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd | Cyngor Celfyddydau Cymru<br><br>Llenyddiaeth Cymru<br><br>Menter Caerdydd Merched y Wawr<br><br>Canolfan y Mileniwm<br><br>Yr Urdd<br><br>Cyngor Caerdydd | Tudalen Facebook Calendr Caerdydd wedi ei sefydlu gan Menter Caerdydd gyda mynediad iddo ar gael i holl bartneriaid Fforwm Caerdydd Ddwyieithog i hyrwyddo digwyddiadau Cymraeg.<br><br>Gofynnir i Gydlynwyr y Gymraeg y Cyngor ymuno, a bydd yn cael ei farchnata gan dîm cyfathrebu'r Cyngor.<br><br>6 sesiwn ysgrifennu creadigol wedi eu darparu yn 2022-23. |
| **7.** Datblygu, creu a | | Ebrill 2022 | Pob partner i | Y Dinesydd | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| dylunio cylchlythyr misol o gyfleoedd cyflogaeth Cymraeg a datblygu sgiliau gwaith yn y ddinas, o wirfoddoli i swyddi llawn amser. | 12 cylchlythyr misol wedi'u paratoi a'u fformatio ar gyfer rhannu gyda phartneriaid. | | dderbyn cylchlythyr misol i'w rannu gyda'u rhwydweithiau. | Holl Bartneriaid Fforwm CDd | Yn dilyn nifer o gyfarfodydd, cadarnhaodd y Dinesydd nad oes ganddynt ar hyn o bryd y gallu i gefnogi'r cylchlythyr misol gan fod yr holl staff yn wirfoddolwyr.<br><br>Rhowch camau ar waith fel bod partneriaid Caerdydd Ddwyieithog yn anfon yr holl wybodaeth at dîm Caerdydd Ddwyieithog i'w anfon drwy e-bost at bob partner a hefyd i Fenter Caerdydd ei hysbysebu ar eu e@achlysur newyddlen. |
| **8.** Cytuno a rhannu canllaw arfer da ynghylch y defnydd o'r Gymraeg ac ystyriaethau Cymraeg at ddefnydd datblygwyr tai, cymdeithasau tai, cwmnïau adeiladu, cwmnïau diogelwch ac ati sy'n gweithio gyda Chyngor Caerdydd. | Dosbarthu'r canllaw i bartneriaid y Cyngor ac annog pobl i ddefnyddio a rhoi ystyriaeth gynhwysfawr i'r Gymraeg.<br><br>Atgyfnerthu awgrym y Cyngor fod pob datblygiad a phrosiect tai yng Nghaerdydd yn defnyddio enw Cymraeg - mae hyn yn cynnwys yr enw answyddogol a ddefnyddir ar gyfer marchnata rhagarweiniol ac | Medi 2022 | Y llawlyfr i'w rannu â phartneriaid y Fforwm. | Cyngor Caerdydd<br><br>Menter Caerdydd<br><br>Holl Bartneriaid Fforwm CDd | Cynhaliwyd trafodaethau gyda Chynghorau Sir Gaerfyrddin, Gwynedd a Rhondda Cynon Taf i rannu arferion gorau ar y ffordd orau i ddylanwadu ar ddatblygwyr i wneud defnydd o'r Gymraeg a chynyddu ei amlygrwydd.<br><br>Mae Cyngor Caerdydd wedi cytuno i ohirio'r gwaith o gynhyrchu hwn am fod Comisiynydd y Gymraeg yn paratoi dogfen ganllaw ar gyfer datblygwyr. Bydd hwn yn cael ei ddosbarthu pan gaiff ei dderbyn ac yn cael ei gefnogi gan lythyr gan Arweinydd y Cyngor. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | enw swyddogol terfynol y datblygiad neu'r prosiect. | | | | |
| **9.** Cynnal a hyrwyddo rhestr enwau strydoedd y Cyngor a'i rhannu'n fewnol (e.e. mapiau ishare a rhestr gyfeiriadau) ac yn allanol (Arolwg Ordnans, Swyddfa'r Post ac ati). | Cyfathrebu enwau strydoedd i adnoddau'r cyngor a chyrff allanol perthnasol.<br><br>Cryfhau Polisi Enwi Strydoedd y Cyngor i gymhwyso ei egwyddorion i fannau a rennir sydd i gynnwys enwau parciau, mannau gwyrdd, coetiroedd, gorsafoedd trafnidiaeth, llwybrau troed a llwybrau beicio, ac adeiladau a datblygiadau newydd sy'n eiddo i'r Cyngor. | Mawrth 2023<br><br>Ebrill 2023 | Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd<br><br>Adolygu ac ehangu Polisi Enwi Strydoedd y Cyngor | Cyngor Caerdydd<br><br>Comisiynydd y Gymraeg<br><br>Ysgolion Cynradd ac Ysgolion Uwchradd Caerdydd | Egwyddorion Polisi Enwi Strydoedd Cyngor Caerdydd wedi ei ehangu i gynnwys llefydd a rennir, parciau, mannau gwyrdd ac ati.<br><br>Cytundeb y bydd enw Cymraeg ar bob stryd yn natblygiad Plasdŵr yng ngogledd Caerdydd.<br><br>Os yn bosibl, codau QR i'w hychwanegu at blaciau enwau stryd i ddarparu gwybodaeth am gyd-destun a hanes enw’r stryd. |
| | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **10.** Creu pecyn gwybodaeth gydol oes am weithgarwch ac adnoddau Cymraeg yng Nghaerdydd. | Cytuno ar y pecyn terfynol a'i hyrwyddo i gymunedau ledled Caerdydd. | Medi 2022 | Cytuno ar y pecyn gwybodaeth yn y cyfarfod Cyfarfod Fforwm CDd ym mis Medi 2022 | Menter Caerdydd | Creu gwefan Siop Un Stop 'Ein Hiaith: Ein Dinas' i gynnig gwybodaeth am y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael i bawb wedi'i chynnwys fel cam gweithredu i gefnogi CSCA 2022-31 Cyngor Caerdydd. Datblygiad dan arweiniad yr Adran Addysg gyda chymorth gan Gaerdydd Ddwyieithog ac i'w lansio yn Haf 2023. |
| **12.** Datblygu a chyhoeddi Polisi Grantiau | Datblygu Polisi Grantiau Cyngor Caerdydd i fodloni'r gofynion o dan Safonau'r Gymraeg | Mawrth 2022 | | Cyngor Caerdydd | **Cwblhawyd** |
| **14.** Adolygu canllaw Cyngor Caerdydd i 3ydd partïon ar weithredu Safonau'r Gymraeg | Diweddaru a diwygio'r canllaw 3ydd partïon a chynnwys adran ar ofynion Safonau'r Gymraeg yn ymwneud â thendro. | Ebrill 2022 | Cyhoeddi canllaw 3ydd partïon diwygiedig | Cyngor Caerdydd | **Cwblhawyd** |